



Polisi Cydymffurfio a Gorfodi

Atodiad 3: Gorfodi Iechyd a Diogelwch

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r atodiad hwn yn ategu Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir o ran sefydlu dull cyson o orfodi cyfraith iechyd a diogelwch. Rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol.
- 1.2 Mae'r atodiad hwn wedi'i lunio mewn ymateb i ofynion adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau digonol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau fel "awdurdod gorfodi".
- 1.3 Mae'r atodiad hwn yn dilyn y canllawiau a gyflwynwyd gan y Comisiwn Iechyd a Diogelwch ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddilyn yr egwyddorion a'r dulliau y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cyswllt Gorfodi Awdurdodau Lleol.
- 1.4 Bydd yr atodiad hwn yn rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a gynhyrchwyd mewn ymateb i ofynion adran 18 y Ddeddf.
- 1.5 Pan fydd unrhyw wrthdaro o ran dehongli rhwng yr atodiad hwn a'r Polisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol, bydd yr un olaf yn cael blaenoriaeth.

2. Cylch gwaith y Gwasanaeth wrth orfodi cyfraith iechyd a diogelwch

- 2.1 Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn "awdurdod gorfodi" ar gyfer awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg ac felly mae ganddo gyfrifoldeb dan adran 18 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i wneud trefniadau digonol ar gyfer gorfodi cyfraith iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithgareddau gwaith penodedig.
- 2.2 Nod y GRhR yw amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn y gwaith, a diogelu pobl eraill, yn bennaf aelodau'r cyhoedd, a allai fod yn agored i risgiau yn sgil y ffordd y caiff gwaith ei wneud. Dyma'r prif weithgareddau gwaith y mae'r GRhR yn gyfrifol amdanynt:

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



- swyddfeydd
- siopau
- canolfannau dosbarthu manwerthu a chyfanwerthu
- gweithgareddau chwaraeon, hamdden ac adloniant
- sefydliadau arlwyo
- darparu llety preswyl
- tyllu'r corff a thatwio
- gwasanaethau defnyddwyr mewn siopau
- sefydliadau lles anifeiliaid
- darparu gofal plant, cylch chwarae neu gyfleusterau meithrin
- addoldai
- ymgymerwyr a threfnwyr angladdau.

2.3 Gellir dod o hyd i wybodaeth fanylach gan gynnwys eithriadau i'r rhestr hon yng Nghynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ac yn Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998

Mae'r Datganiad Polisi Gorfodi hwn yn nodi'r egwyddorion a'r dull gweithredu cyffredinol y bydd GRhR yn eu dilyn; bydd ein Harolygwyr yn cadw at egwyddorion y ddogfen bolisi hon.

Mae'r defnydd priodol o'r ystod lawn o bwerau gorfodi, gan gynnwys erlyn, yn bwysig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac i sicrhau y gellir dwyn y rhai sydd â dyletswyddau oddi tanynt i gyfrif am fethu â diogelu iechyd, diogelwch a lles.

3. Cymryd camau gorfodi

3.1 Mae adran 8.4 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi'r GRhR yn ymwneud â phenderfyniadau ar gamau gorfodi ac yn ystyried yr ystod eang o opsiynau gorfodi sydd ar gael i'r Gwasanaeth. Diben yr adran hon yw pennu'r opsiynau gorfodi ychwanegol sydd ar gael sy'n benodol i weinyddu cyfraith iechyd a diogelwch.

3.2 Mae'r dulliau gorfodi sydd ar gael i'n harolygwyr yn cynnwys:

- darparu cyngor llafar ac ysgrifenedig;
- darparu gwybodaeth ysgrifenedig am dorri'r gyfraith;
- gofyn am wella'r ffordd y rheolir risgiau;
- atal gweithgareddau penodol lle maent yn peri risgiau difrifol; ac
- argymhell erlyniad lle bu torcyfraith difrifol.

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



Wrth ddyrannu adnoddau, rhoddir sylw dyledus i'r egwyddorion a nodir isod, yr amcanion a gyhoeddwyd yng nghynlluniau strategol y Comisiwn Iechyd a Diogelwch a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/Pwyllgor Cydlynu Camau Gorfodi yr Awdurdod Lleol, a'r angen i gynnal cydbwysedd rhwng gorfodi a gweithgareddau eraill, gan gynnwys arolygu.

- 3.3 Wrth nodi'r camau gweithredu mwyaf priodol, mae'r Gwasanaeth yn cael ei arwain gan Fodel Rheoli Camau Gorfodi yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (gweler hefyd adrannau 5.1.3 a 6.1 isod).
- 3.4 Rydym yn credu mewn gorfodi'r gyfraith mewn modd cadarn, ond teg. Rydym yn gweithredu ar y sail y dylai pob cam gorfodi fod yn gymesur â'r risgiau iechyd a diogelwch a difrifoldeb unrhyw achos o dorcyfraith. Rydym o'r farn bod defnydd priodol o'n pwerau gorfodi yn bwysig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith iechyd a diogelwch a sicrhau bod y rhai sydd â dyletswydd gyfreithiol (deiliaid dyletswydd) yn cael eu dwyn i gyfrif am fethiannau sylweddol.

Mae'r adrannau canlynol o'r Atodiad hwn yn disgrifio:

- pwrpas gorfodi;
- egwyddorion gorfodi;
- y dulliau gorfodi sydd ar gael i'n harolygwyr; a
- sut mae ein hegwyddorion gorfodi yn ymwneud ag ymchwiliadau ac erlyniadau.

4. Pwrpas gorfodi

- 4.1 Pwrpas y GRhR fel Awdurdod Gorfodi yw sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn rheoli risgiau'n effeithiol, gan atal niwed.

Pwrpas gorfodi yw:

- sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn cymryd camau i fynd i'r afael â risgiau difrifol ar unwaith;
- hyrwyddo a sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r gyfraith;
- sicrhau y gall deiliaid dyletswydd sy'n torri gofynion iechyd a diogelwch, a chyfarwyddwyr neu reolwyr sy'n methu â chyflawni eu cyfrifoldebau, gael eu dwyn i gyfrif.

- 4.2 Mae gorfodi yn wahanol i hawliadau sifil sy'n cael eu canlyn gan unigolion fel partïon wedi'u hanafu am iawndal, ac nid yw'n cael ei gynnal ym mhob achos lle gellir mynd

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

:



ar drywydd hawliadau sifil. Nid yw'n bolisi i Arolygwyr gynorthwyo mewn hawliadau o'r fath ac eithrio darparu gwybodaeth y mae'r partïon perthnasol yn gofyn amdani.

5. Egwyddorion gorfodi

5.1 Yn unol â Pholisi Cydymffurfio a Gorfodi cyffredinol y GRhR, rydym yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol wrth gynnal ein gweithgareddau gorfodi yng nghyd-destun cyfraith iechyd a diogelwch:

- **cymesuredd** wrth gymhwyso'r gyfraith a sicrhau cydymffurfiaeth;
- **targedu** camau gorfodi;
- dull gweithredu **cyson**;
- **tryloywder** ynghylch sut rydym yn gweithredu fel rheoleiddiwr a'r hyn y gallai'r rhai a reoleiddir ei ddisgwyl;
- **atebolrwydd** ar gyfer ein gwasanaeth a'n gweithredoedd.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol wrth gynnal camau gorfodi mewn achosion penodol o dorcyfraith, ac i'r ffordd yr ydym yn rheoli gweithgareddau gorfodi yn gyffredinol. Nid ydynt yn cael eu cymhwyso ar eu pen eu hunain, ond maent yn cael eu llywio gan ddealltwriaeth o'r amgylchedd busnes. Maent yn caniatáu i ni orfodi'n effeithiol heb rwystro twf economaidd trwy ei gwneud yn ofynnol i'n harolygwyr wneud penderfyniadau sy'n gymesur ac ystyried tarfu ar gynhyrchiant busnes cyn lleied â phosibl. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng Nghod Cenedlaethol yr Awdurdod Lleol ar gyfer Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

5.1.1 Cymesuredd

- Rydym yn mabwysiadu dull cymesur o orfodi'r gyfraith ar draws gwahanol ddiwydiannau a sectorau, gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi busnesau i gydymffurfio a thyfu.
- Mae'r dull hwn yn seiliedig ar God Gorfodi Awdurdodau Lleol Cenedlaethol - [Cod yr Awdurdod Gorfodi Lleol Cenedlaethol \(hse.gov.uk\)](https://www.hse.gov.uk/cod/)
- 'Wrth ddelio â deiliaid dyletswydd, byddwn yn sicrhau bod ein camau gorfodi yn gymesur â'r risgiau iechyd a diogelwch* a difrifoldeb unrhyw achos o dorcyfraith. Mae hyn yn cynnwys unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl sy'n deillio o unrhyw dorcyfraith, ac effaith economaidd y camau a gymerir.
- Rydym yn disgwyl y bydd deiliaid dyletswydd, yn eu tro, yn mabwysiadu dull synhwyrol a chymesur o reoli iechyd a diogelwch, gan ganolbwyntio ar risgiau sylweddol h.y. y rhai sydd â'r potensial i achosi niwed go iawn.

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



- Mae cymhwyso'r egwyddor o gymesuredd yn golygu y dylai ein harolygwyr ystyried yn benodol i ba raddau y mae deiliaid dyletswydd wedi methu â chydymffurfio â gofynion y gyfraith a graddau'r risgiau a grëwyd.
- Mae rhai dyletswyddau iechyd a diogelwch yn benodol ac yn absoliwt. Mae angen gweithredu ar ddyletswyddau eraill "cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol". Bydd ein harolygwyr yn cymhwyso'r egwyddor o gymesuredd mewn perthynas â'r ddau.
- Mae penderfynu beth sy'n rhesymol ymarferol i reoli risg yn golygu arfer barn. Wrth ystyried digonolrwydd y mesurau amddiffynnol a gymerwyd, bydd ein harolygwyr yn cydbwyso maint y risg yn erbyn yr arian, yr amser neu'r drafferth sy'n angenrheidiol i osgoi'r risg honno. Oni ellir dangos bod anghysondeb mawr rhwng y ffactorau hyn a bod y risg yn fach iawn mewn perthynas â'r gost, rhaid i ddeiliaid dyletswydd gymryd camau a thalu costau i leihau'r risg a chydymffurfio â'r gyfraith.

5.1.2 Targedu

- Rydym yn defnyddio dull seiliedig ar risg wrth benderfynu pa ddeiliaid dyletswydd i archwilio'n rhagweithiol, gan ystyried ffactorau megis maint, math o weithgareddau, sector diwydiant, a'r cyfraddau marwolaeth, anafiadau a salwch cysylltiedig.
- Mae'r dull hwn yn seiliedig ar God Gorfodi Awdurdodau Lleol Cenedlaethol - [Cod yr Awdurdod Gorfodi Lleol Cenedlaethol \(hse.gov.uk\)](https://www.hse.gov.uk/cod/)
- Rydym hefyd yn defnyddio meini prawf cymesur sy'n seiliedig ar ganlyniadau wrth benderfynu pa ddigwyddiadau, afiechydon a digwyddiadau peryglus y gellir adrodd amdanynt dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn penderfynu ymchwilio ai peidio ar gael ar ein gwefan.
- Mae hyn yn golygu ein bod yn targedu ein hadnoddau arolygu ac ymchwilio yn bennaf ar y gweithgareddau, y diwydiannau a'r sectorau hynny sy'n peri'r risgiau mwyaf difrifol, lle na chaiff y peryglon eu rheoli cystal, neu lle mae amheuaeth am gymhwysedd i reoli iechyd a diogelwch. Ni fydd gweithgareddau risg isel, yn gyffredinol, yn ddarostyngedig i gamau gorfodi oni bai bod niwed gwirioneddol wedi digwydd.
- Rydym yn canolbwyntio ein gweithgarwch gorfodi ar y risgiau mwyaf difrifol, ac ar y rhai sy'n gyfrifol am y risgiau hyn ac yn y sefyllfa orau i'w rheoli - p'un a yw'r rheiny'n gyflogwyr, gweithwyr, pobl hunangyflogedig, cyflenwyr, contractwyr, landlordiaid neu bobl eraill.

Atodiad 3 - Polisi Cyddymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
---	--------------------------------	---------------------	---------	-----



- Rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol ystyried pob mater o ddiffyg cydymffurfio a allai ddod i'r amlwg yn ystod archwiliad neu ymchwiliad. Felly, bydd ein harchwilwyr yn targedu eu camau gorfodi i ddelio â'r risgiau mwyaf difrifol.
- Pan fydd gan ddeiliaid dyletswydd gyfrifoldebau, gallwn gymryd camau yn erbyn mwy nag un pan fo'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn.

5.1.3 Cysondeb

- Rydym yn mabwysiadu dull cyson o orfodi'r gyfraith ar draws gwahanol ddiwydiannau a gweithleoedd, gan gydnabod pwysigrwydd trin pawb yn deg wrth hyrwyddo a chynnal twf economaidd.
- Mae'r dull hwn yn seiliedig ar God Gorfodi Awdurdodau Lleol Cenedlaethol - [Cod yr Awdurdod Gorfodi Lleol Cenedlaethol \(hse.gov.uk\)](https://www.hse.gov.uk/cod/)
- Nid unffurfiaeth yw ystyr Cysondeb Dull. Mae'n golygu cymryd ymagwedd debyg mewn amgylchiadau tebyg i gydymffurfio â'r gyfraith.
- Rydym yn deall bod pobl sy'n rheoli risgiau tebyg mewn diwydiannau tebyg yn disgwyl dull cyson gan ein harolygwyr wrth gymryd camau gorfodi. Fodd bynnag, nid yw cysondeb yn fater syml. Mae pob sefyllfa yn wahanol – yn rhinwedd y diwydiant, gweithle, ei risgiau, systemau rheoli ac ati. O ganlyniad, mae ein harolygwyr yn wynebu llawer o elfennau gwahanol yn ogystal â maint y risg a difrifoldeb unrhyw dramgwydd, gan gynnwys agwedd a chymhwysedd rheoli, hanes o ddigwyddiadau blaenorol a chamau gorfodi blaenorol.
- Felly, mae unrhyw benderfyniad gorfodi yn gofyn am arfer disgrisiwn unigol a barn broffesiynol yn briodol.
- Trwy gymhwyso ein fframwaith penderfynu ar gamau gorfodi iechyd a diogelwch, sef y Model Rheoli Camau Gorfodi, a thrwy adolygiadau gan gymheiriaid, ein nod yw sicrhau bod ein penderfyniadau gorfodi yn gyson.
- Pan fydd camau gorfodi yn gwrthdaro â gofynion rheoleiddwyr eraill, byddwn yn gweithio gyda nhw i ddatrys y gwahaniaethau.

5.1.4 Tryloywder

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

:



- Dylai ein camau gorfodi amlinellu'n glir i ddeiliaid dyletswydd nid yn unig yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud ond, lle bo'n berthnasol, yr hyn nad ydynt yn ei wneud.
- Lle nodwyd diffyg cydymffurfio, bydd ein harolygwyr yn esbonio'n glir ac yn brydlon y penderfyniad a wnaed, eu rhesymau, a'r camau sydd eu hangen i sicrhau eu bod yn cydymffurfio. Byddant yn trafod amserlenni rhesymol gyda deiliad y ddyletswydd ac yn egluro beth fydd yn digwydd os na fydd yn cydymffurfio.
- Yn ogystal, bydd ein harolygwyr yn gwahaniaethu rhwng y camau gweithredu sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r gyfraith, a chynngor ar ddilyn arfer da neu hysbysu am newidiadau sydd ar y gweill o ran gofynion cyfreithiol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd beichiau economaidd diangen yn cael eu gosod ar fusnesau
- Mae tryloywder hefyd yn cynnwys rhoi gwybod i weithwyr, cynrychiolwyr gweithwyr, pobl sydd wedi'u hanafu a'u teuluoedd am gamau gorfodi perthnasol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfreithiol ar ddatgeliad.
- Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar God Gorfodi Awdurdodau Lleol Cenedlaethol - [Cod yr Awdurdod Gorfodi Lleol Cenedlaethol \(hse.gov.uk\)](https://www.hse.gov.uk/cod/)

5.1.5 Mae safonau a thargedau gofynnol wedi'u gosod ar gyfer rhai gweithgareddau penodedig o ran Gorfodi Iechyd a Diogelwch, sef

GWEITHGAREDD		SAFON
1	Pob arolygiad rhagweithiol risg uchel	Cynnal ymweliadau arferol drwy apwyntiad
2	Pob categori arall o ymweliadau rhagweithiol	Cynnal ymweliadau ar sail blaenoriaeth neu fel sy'n ofynnol fel rhan o'r cynllun busnes blynyddol
3	Pob cais am wasanaeth, gan gynnwys cwynion	Ymateb ac ymchwilio i bob un. Delir â chwynion dienw a blinderus â disgresiwn
4	Pob cwyn a dderbynnir mewn cysylltiad ag amodau gwaith a gweithgareddau gwaith	Ymateb cyntaf o fewn 4 diwrnod ac ymchwilir i'r gŵyn yn unol â'r Polisi Ymchwilio i Gwynion.
5	Ymchwiliadau i Ddamweiniau a Digwyddiadau	Ymateb cyntaf o fewn 4 diwrnod ac ymchwilir i'r ddamwain neu'r digwyddiad yn unol â'r Polisi Ymchwilio i Ddamweiniau.

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

:



6	Adroddiadau Statudol	Mae'r ymateb yn dibynnu ar fanylion yr Adroddiad Statudol
7	Ymgynghoriad â'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch Cyfrifol	Ymateb cyntaf o fewn 5 diwrnod

Mae trefniadau gweinyddol ar waith i fonitro ein perfformiad yn erbyn y safonau hyn a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol yn y Cynllun Gwasanaeth ac ar wefan y GRhR.

5.1.6 Atebolrwydd

Fel rheoleiddiwr, rydym yn atebol i bawb a gellir barnu ein camau gorfodi yn erbyn yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn yr Atodiad hwn. Er nad yw'n lleihau cyfrifoldeb deiliaid dyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith, mae hyn yn cynnwys ein dyletswydd i roi sylw i dwf economaidd yn ein gweithgareddau rheoleiddio.

Bydd busnesau, gweithwyr, eu cynrychiolwyr ac eraill yn cael gwybodaeth i'w galluogi i ddeall beth i'w ddisgwyl pan fydd ein harolygwyr yn ymweld â nhw a sut i godi unrhyw gwynion sydd ganddynt. Bydd y ddogfennaeth honno

- yn disgrifio'r weithdrefn i gwyno am benderfyniadau gorfodi a wnaed gan ein harolygwyr neu os na ddilynwyd gweithdrefnau, ac
- esbonio'r hawl i apelio i Dribiwnlys Cyflogaeth mewn achosion lle mae hysbysiadau statudol wedi'u cyhoeddi.

6. Dulliau gorfodi

6.1 Mae gennym amrywiaeth o ddulliau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith ac i sicrhau ymateb cymesur i unrhyw doriadau.

- Gall ein harolygwyr ddarparu gwybodaeth, cyngor neu lythyrau rhybudd ffurfiol ynghylch torri'r gyfraith yn dilyn ymweliad. Gall hyn gynnwys rhybuddio'r deiliad dyletswydd ei fod, ym marn yr arolygydd, yn methu â chydymffurfio â'r gyfraith. Lle bo'n briodol, efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd, tynnu cymeradwyaeth yn ôl, amrywio amodau trwydded neu eithriadau, cyhoeddi rhybuddion syml a gallwn erlyn.
- Wrth benderfynu pa lefel o gamau gorfodi sy'n briodol, mae ein harolygwyr yn arfer disgrisiwn a barn broffesiynol yn unol â'r amgylchiadau a ganfuwyd. Fe'u harweinir yn y broses hon gan y Model Rheoli Camau Gorfodi, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau gorfodi cyson ac yn ystyried y cyd-

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



destun busnes fesul achos. Mae hefyd yn ystyried agweddau ar fuddiant economaidd a allai danseilio busnesau eraill.

- Gellir cyflwyno hysbysiad gwahardd pan fydd arolygydd o'r farn bod risg o anaf personol difrifol sy'n gysylltiedig â gweithgaredd neu broses waith benodol neu, os nodir diffyg difrifol mewn dulliau, i atal neu liniaru effeithiau peryglon mawr. Nid oes angen torri'r gyfraith. Gall hysbysiad o'r fath ddod i rym ar unwaith neu gael ei ohirio am resymau diogelwch.
- Gellir cyflwyno hysbysiad gwella pan fydd arolygydd o'r farn bod yna dorcyfraith y mae angen ei ddatrys o fewn cyfnod penodol o amser.
- Mae methu â chydymffurfio â'r naill fath neu'r llall o rybudd yn drosedd a gall arwain at erlyniad.
- Mae erlyniad a, lle bo'n briodol, rhybuddiadau, yn ffyrdd pwysig o ddwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif am dorri'r gyfraith. Pan fo'n briodol gwneud hynny yn unol â'r polisi hwn, gellir cymryd y mesurau hyn yn ychwanegol at gyflwyno hysbysiad gwella neu wahardd.
- Os canfyddir bod busnes yn rhan o bartneriaeth Prif Awdurdod, bydd arolygwyr yn dilyn rheolau Prif Awdurdod y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch ac yn dilyn cyngor sicr.

Pan fydd gan arolygwyr ddewisiadau ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau, byddant yn:

- ystyried sut y gallent gyflawni eu gweithgareddau i leihau effaith economaidd negyddol tebygol: ac
- addasu eu gweithgareddau i wneud y mwyaf o unrhyw effaith economaidd gadarnhaol debygol

6.2 Ymchwiliad

- Rydym yn arfer disgresiwn wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i ddigwyddiadau. Cydnabyddir nad yw'n bosibl nac yn angenrheidiol at ddibenion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc., 1974 i ymchwilio i bob mater o ddiffyg cydymffurfio â'r gyfraith. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, gan gynnwys lefel yr adnodd i'w ddefnyddio, rydym yn ystyried y ffactorau canlynol:
 - graddau'r niwed posibl neu wirioneddol;
 - difrifoldeb unrhyw achos posibl o dorri'r gyfraith;

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

:



- ein blaenoriaethau gorfodi;
 - ymarferoldeb cyflawni canlyniadau;
 - perthnasedd ehangach y digwyddiad, gan gynnwys pryder cyhoeddus difrifol
- Mae'r meini prawf ar gyfer penderfynu pa ddigwyddiadau sy'n orfodol i ymchwilio iddynt yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cynnal ymchwiliadau er mwyn:
 - casglu gwybodaeth a nodi'r ffeithiau
 - nodi'r achosion uniongyrchol a sylfaenol a'r gwersi i'w dysgu
 - atal rhag digwydd eto
 - nodi achosion o dorri cyfraith iechyd a diogelwch
 - cymryd camau priodol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau ac erlyn.

Bydd y GRhR yn dilyn egwyddorion ei Bolisi Ymchwilio i Ddamweiniau wrth benderfynu pa ddamweiniau fydd yn cael eu hymchwilio. [Polisi Ymchwilio i Ddamweiniau Cynllun Iechyd a Diogelwch.doc](#)

Bydd y GRhR yn dilyn egwyddorion ei Bolisi Ymchwilio i Gwynion wrth benderfynu pa gwynion neu Geisiadau am Wasanaeth fydd yn cael eu hymchwilio fel y nodir ym [Mholisi Ymchwilio i Gwynion y Cynllun Iechyd a Diogelwch.doc](#)

Rydym yn neilltuo'r rhan fwyaf o adnoddau i ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r amgylchiadau mwy difrifol, gan gynnwys ymchwilio i'r holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith.

6.3 Ymchwilio i farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith

Lle bu torcyfraith yn arwain at farwolaeth yn gysylltiedig â gwaith, mae angen ystyried a allai amgylchiadau'r achos gyfiawnhau cyhuddiad o ddynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol ai peidio.

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ar ymchwilio ac erlyn yn cael eu cydlynu'n agos yn dilyn marwolaeth sy'n gysylltiedig â gwaith, rydym ni, ynghyd â rheoleiddwyr eraill, wedi cytuno i, a chyhoeddi *Marwolaethau cysylltiedig â gwaith ar y cyd. Protocol ar gyfer cydlynu*

Mae'r heddlu yn cymryd uchafiaeth mewn ymchwiliadau i ddynladdiad ac felly mae ganddynt gyfrifoldeb dros benderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol ai peidio ac a ddylid cyfeirio achos at Wasanaeth Erlyn y

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



Goron i ystyried cyhuddiadau o ddynladdiad posibl. Os byddwn yn dod o hyd i dystiolaeth sy'n awgrymu dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol yn ystod ein hymchwiliad i droseddau iechyd a diogelwch posibl, byddwn yn cyfeirio'r achos at yr heddlu. Os bydd yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio â dilyn achos dynladdiad neu ddynladdiad corfforaethol, byddwn yn ystyried a ddylid erlyn ar sail iechyd a diogelwch yn unol â'r polisi hwn.

6.4 Achosion cyfreithiol ffurfiol

6.4.1 Rhybudd Syml

Mae Adran 9.4.4 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ymdrin â Rhybuddion Syml.

6.4.2 Erlyniad

Mae erlyniad yn rhan hanfodol o orfodaeth ac yn sicrhau bod deiliaid dyletswydd (gan gynnwys unigolion) yn cael eu dwyn i gyfrif pan fu torcyfraith difrifol. Mae hyn yn cynnwys dod â throseddwyd honedig gerbron y llysoedd.

Mae Adran 9.4.5 o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn ymdrin ag Erlyniadau a'r broses gysylltiedig o wneud penderfyniadau.

Yn amodol ar yr uchod, rydym yn argymhell erlyn os byddwn yn ystyried bod cyfiawnhad dros hynny. Byddwn yn ystyried y trefniadau rheoli a'r rôl a chwaraeir gan gyfarwyddwyr a rheolwyr unigol a byddwn yn ystyried cymryd camau yn eu herbryn os yw'r arolygiad neu'r ymchwiliad yn datgelu bod y drosedd wedi'i chyflawni gyda'u caniatâd neu eu cyd-ddygiad neu y gellid ei phriodoli i'w hesgeulustod ac os byddai'n briodol gwneud hynny yn unol â'r atodiad hwn. Lle bo'n briodol, byddwn yn ceisio anghymhwyso cyfarwyddwyr o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Rydym yn argymhell erlyn pan fo un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn y rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) yn berthnasol yn dilyn ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddiol arall:

- roedd marwolaeth o ganlyniad i fynd yn groes i'r ddeddfwriaeth;
- mae difrifoldeb y drosedd honedig, a ystyrir ynghyd â difrifoldeb unrhyw niwed gwirioneddol neu bosibl, neu hanes ac ymagwedd cyffredinol y troseddwr yn gwarantu hynny;
- mae gofynion iechyd a diogelwch wedi cael eu diystyru yn ddi-hid;

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----



- mae achosion o dorri rheolau wedi digwydd dro ar ôl tro sy'n arwain at risg sylweddol, neu gydymffurfiaid gwael parhaus a sylweddol;
- mae gwaith wedi'i wneud heb drwydded briodol neu achos diogelwch, neu mewn modd sy'n dangos diffyg cydymffurfiaeth i raddau difrifol;
- canfu bod safon deiliad dyletswydd o reoli iechyd a diogelwch yn llawer is na'r hyn sy'n ofynnol gan gyfraith iechyd a diogelwch sy'n peri risg sylweddol;
- methwyd â chydymffurfio â hysbysiad gwella neu wahardd; neu bu achos o dorri'r gyfraith a ailadroddwyd a oedd yn destun rhybudd syml;
- cyflenwyd gwybodaeth ffug yn wirfoddol, neu bwriadwyd twyllo, mewn cysylltiad â mater sy'n peri risg sylweddol;
- rhwystrwyd arolygwyr yn fwriadol wrth gynnal eu dyletswyddau cyfreithlon.

Rydym yn argymhell erlyn pan fo un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol yn dilyn ymchwiliad neu gyswllt rheoleiddiol arall:

- mae'n briodol dan yr amgylchiadau fel ffordd o dynnu sylw cyffredinol at yr angen i gydymffurfio â'r gyfraith a chynnal y safonau sy'n ofynnol gan y gyfraith, a gallai collfarnu atal eraill rhag methiannau tebyg i gydymffurfio â'r gyfraith;
- mae achos o dorri'r gyfraith sy'n peri risg sylweddol wedi parhau er gwaethaf rhybuddion perthnasol gan gyflogeion, neu eu cynrychiolwyr, neu gan eraill yr effeithir arnynt gan weithgarwch gwaith.

Byddwn yn parhau i geisio codi ymwybyddiaeth y llysoedd o ddifrifoldeb troseddau iechyd a diogelwch hyd eithaf eu pwerau wrth gydnabod mai'r llysoedd sy'n penderfynu a yw rhywun yn euog ai peidio a pha gosb i'w rhoi wrth gollfarnu.

6.4.3 Cyhoeddusrwydd

Bydd y GRhR hefyd yn ystyried ym mhob achos dynnu sylw'r cyfryngau at wybodaeth ffeithiol am gyhuddiadau iechyd a diogelwch a gyflwynwyd i'r llysoedd; cymerir gofal i osgoi unrhyw gyhoeddusrwydd a allai rhagfarnu achos teg. Byddwn hefyd yn ystyried rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw euogfarn fel ffordd o dynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch neu atal unrhyw un sy'n cael eu temtio i ddiystyru eu dyletswyddau o dan gyfraith iechyd a diogelwch.

Gall y GRhR hefyd sicrhau bod gwybodaeth ar gael am hysbysiadau gwella a hysbysiadau gwahardd sydd wedi'u cyflwyno.

6.4.4 Cyrff y Goron

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

:



Mae'n rhaid i gyrff y Goron gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch, ond nid ydynt yn ddarostyngedig i gamau gorfodi statudol, gan gynnwys erlyn. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi sefydlu trefniadau anstatudol ar gyfer gorfodi gofynion iechyd a diogelwch ar gyrff y Goron. Mae'r trefniadau hyn yn ein galluogi ni i gyflwyno hysbysiadau gwella a gwahardd anstatudol, a cheryddu cyrff y Goron mewn amgylchiadau lle y byddai erlyn wedi'i gyfiawnhau oni bai am freinryddid y Goron. Wrth benderfynu pryd i ymchwilio neu pa fath o gamau gorfodi i'w cymryd, dilynwn, cyn belled ag y bo modd, yr un dull ag ar gyfer cyrff nad ydynt yn gyrff y Goron, yn unol â'r atodiad hwn a'r Polisi Cydymffurfiaeth a Gorfodi cyffredinol. Nid oes unrhyw awdurdodaeth ynghlwm wrth gamau gorfodi awdurdodau lleol, ni waeth beth fo'r prif weithgarwch gwaith.

Atodiad 3 - Polisi Cydymffurfio a Gorfodi	Dyddiad cyhoeddi 13/11/2023	Cyf: SRS/MC/POL/006	OM – CS	F.1
--	--------------------------------	---------------------	---------	-----

: